

Y DDWY SIAN OWEN YN SALEM

Gan DAFYDD GUTO

*'Siân Owen Tŷ'n-y-Fawnog yw'r hen wraig
A wisga'r siôl a'i hurddas benthyg,
mwy,
Hen wreigan seml a chadarn fel y
grraig
Uwch Cefnycymerau, lle'r addolant
hwy...'*


T. Rowland Hughes

YSBRYDOLWYD y bardd gan yr arlunydd Vosper, a'r 'cwmni gwledig' a bortreadwyd ganddo, a hynny am gil-dwrn bychan, yn Salem, capel y Bedyddwyr, yr ochr uchaf i'r Gwynfryn, ger Llanbard (Llanbedr) yn Ardudwy, Sir Feirionnydd.

Siân Owen, a'i siôl baisley, a'i llyfr emynau du dan ei braich; Wiliam Siôn; Owen Siôn, Robart Wiliam, Cae'r Meddyg; Laura Tŷ'n y Buarth; yr oll wedi marw erbyn hyn, ac Evan Edward Lloyd, y bachgen bach yn y darlun, a dyfodd yn ŵr a symud i fyw i Lanberis.

Beth yw arwyddocâd 'Salem'? Darlun ydyw sy'n portreadu rhan o'r bywyd crefyddol-Cymreig ar ddiwedd y ganrif o'r blaen, a dechrau hon. Rhywdro rhwng canol mis Mehefin a diwedd mis Medi 1908 bu'r arlunydd Sydney Curnow Vosper wrth ei waith yn Salem.

Brodor o Ddyfnaint ydoedd. Fe'i ganed yn Stonehouse, Hydref 29ain, 1866. Addysgwyd yng Ngholeg King, Taunton, a'r Coleg ym Mhlymouth. Ar un amser bu'n brentis pensaer, ond syrffedodd yn lân ar weithio mewn swyddfa. Ar ôl



Nid yw'r cloc ar y mur na'r holl gynhulliad yn y darlun ar y mur a ddangosodd Gwyn Llywelyn yn y rhaglen Hel Straeon.

bod yno dair blynedd, rhoddodd y ffidil yn y to, ac aeth i Baris er mwyn astudio celfyddyd.

Daeth dan ddylanwad Raphael Collin a G. Courtois. Arhosodd dair blynedd ym Mharis, a daeth yn amlwg ei fod yn arlunydd penigamp ac ar ei orau gyda darluniau dyfrlliw. O bryd i'w gilydd troa'i law at ysgythru ac engrafiadau 'dry point'.

Ei ddarluniau gorau o ddigon yw 'Llydaw', 'Pnawn heulog', 'Tosturi', ond yr enwocaf yng Nghymru yw 'Salem'.

Arddangoswyd gweithiau Vosper led-led Lloegr, yn Ffrainc ac yng Nghymru. Cartrefodd yr arlunydd yn 77 Bedford Gardens, Llundain, Lloegr ac ar y pryd gweithiai ar ddarluniau ar gyfer cyhoeddiadau. Trigai am ychydig hefyd ger Rhydychen. Bu farw 10ed Gorffennaf 1942 yn 76 mlwydd oed.

* * *

ROEDD gan Vosper gyswllt agos â Chymru. Yn 1902 priododd â Constance James a oedd yn frodor o Ferthyr Tydfil. Cyfreithiwr oedd ei thad, Frank. Yn 1910 y bu farw Constance.

Ddwy flynedd cyn ei marwolaeth roedd Vosper yn aros yn Bryn Hyfryd, Llanfair ym Meirion. Cymeriadau o'r cylch a ddewisodd ar gyfer ei ddarlun o 'Salem'.

Gyda llaw, ymddangosodd Siân Owen mewn darlun arall o eiddo Vosper, sef 'Dydd Marchnad yng Nghymru'. Darlun dyfrlliw ydyw. Ynddo ceir golygfa o'r gegin yng Ngharleg Goch, Llanfair a Siân yn paratoi gogyfer â'r Farchnad. Yn y darlun sydd â'r gwreiddiol yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, mae Siân yn ei dillad bob dydd.

Y mae darlun gwreiddiol 'Salem' yn Oriol yr Arglwyddes Lever ym Mhort Sunlight, Penrhyn Cilgwri, Lloegr. Fe'i prynwyd yn 1909 gan William Lever, sef y

Fiscownt Cyntaf Leverholme (1851-1925). Yn 1913 sefydlodd Galeri er cof am ei wraig a fu farw'r un flwyddyn ac un o'r darluniau a gynhwyswyd yno oedd 'Salem'. Arferid dosbarthu lluniau o 'Salem' ar ffurf calendr i gwsmeriaid o Gymru a brynai sebon 'Sunlight' ac roedd hyn mewn bri rai blynyddoedd yn ôl.

Yn ddiweddar yng Nghymru rhoddwyd cryn sylw trwy'r rhaglen 'Hel Straeon' fod fersiwn arall o'r darlun 'Salem' ar gael; darlun a oedd ar un amser ym meddiant Frank James, Merthyr Tydfil, tad yng nghyfraith Vosper. Y mae 'na rai gwahaniaethau amlwg yn y darlun hwnnw; er enghraifft nid yw'r cloc fwy nag yw Wiliam Siôn ynddo.

Ac un arall eto fyth sydd ym meddiant Mrs Annie Davies Evans yn Ardudwy. Mae'r darlun yma yr un fath a'r llun cyfarwydd ac wedi ei arwyddo arno mewn gwyn mae enw Vosper. Rhoddodd y darlun i dad Mrs Evans—mae ei enw a'i gyfeiriad 'Brynhyfryd' ar ei gefn. Ym Mrynhyfryd roedd Vosper yn aros pan wnaeth y darlun "Salem", ond mae'n bosibl mai ffotograff cynnar yw'r llun sydd gan Mrs Evans, wedi ei gyflwyno gan Vosper i'w thad.

Deallir bod dau fab gan Sydney Vosper a Constance, ac erys hanes 'Salem' eto mor fyw ag erioed, bron wythdeg mlynedd wedi i'r 'cwmni gwledig' a'r arlunydd o Ddyfnaint ddod at ei gilydd yng Nghapel y Bedyddwyr yn Ardudwy.

Cyfeiriadau:

Galeri'r Arglwyddes Lever, Pentref Port Sunlight, Penrhyn Cilgwri, Lloegr.
Amser agor: 10.00 a.m. - 5.00 p.m. Llun - Sadwrn; 2.00 - 5.00 p.m. Sul.
Os am drefnu ymweliad efo grŵp (Ffôn) 051 645 3623

Rhai Ffynonellau:

CULPITT, D.H. Salem Lleufer 1/25 1971 t.27; cerdd;
Yr anfarwoldeb a gollodd y llanc aflonydd pan baentiwyd y darlun

o 'Salem'. Y Cymro Hydref 9fed 1958 t.8; Y Parch. Evan Roberts, yr hanes; ff.d./g.; EMLYN Endaf. Salem Caset Sain C511N, 1974; cynhyrchiad Michael Parker ac Endaf Emllyn; EVANS, Annie Davies. Ymweliad ag Amgueddfa Lady Leverholme Art Gallery, Port Sunlight. Llais Ardudwy. Chwefror 1988 t.4.

EVANS, Dyfed. The Devil and Leusa Jones. County Quest, Haf 1960 tt.2-5 ff.d/g;

DITO Frozen for all time. County Quest Hydref 1969 tt.20-23;

EVANS, Einion. Salem Y Ford Gron Ebrill 1933 t.125, t. 144; ff.d./g;

HUGHES, T. Rowland. Salem (y darlun gan Curnow Vosper) Cân Neu DDwy. Dinbych; Gee, 1948 t.25; cerdd.

HUMPHREYS, E. MORGAN. Salem Lleufer Gwanwyn 1948 tt.28-29;

HUWS, Tom. Darlun o'r Diafol ym mhlygion siôl Siân Owen. Barddas Rhagfyr Ionawr 1987-1988 t.15; englyn

JONES, Alun E. Not Guilty. Country Quest Mawrth 1970 tt.53-54; llythyr yn ateb D.

Tecwyn Lloyd isod; JONES, Rhiannon Davies Seren Menai Rhif 3 t.3.

LLOYD, D. Tecwyn. Could she be leaving? Country Quest Hydref 1969 t.23; Damcaniaeth ddiddorol ynghylch Siân Owen

Tŷ'n-y-Fawnog; OWEN, Gwilym Iestyn. Salem Y Ffynnon Mai 1985 t.9;

THOMAS, Gwilym. J. Salem. Cymru'r Plant Rhagfyr 1967 tt. 119-21;

* * *

Diolchiadau i John Elwyn Jones, Llyfrgellydd Cyfeiriadol Llyfrgell Cangen Caernarfon.

YMYL Y DDALEN

Yn *Libri Walliae*, rhestrir 16 argraffiad o **Patrwm y gwir-Gristion**. Daeth yt argraffiad cyntaf o Lundain yn 1684 a'i ddilyn gan nifer o argraffiadau eraill hyd 1775. Llwyddais i gasglu deg argraffiad gwahanol a ymddangosodd yn ystod y XVIII ganrif:

1. Caerlleon 1723 - bu'r copi yn eiddo 'Edwd. Rowland Garthen Lodge' a cheir ynddo blât a llyfr 'Ex Libris Evan Davies Jones.'

2. Amwythig (Durstion) C. 1730.

3. Amwythig (Durstion) c. 1737 - bu'n eiddo 'William Mosus' a aned Mawrth 1758 a 'John Mosus' a aned Ionawr 1756.

4. Amwythig (Durstion)? - copi '... a gafodd Evan Evans (Abercawach) gan Rees Jones... ym mhlwyf Llanymowddwy... 1836.'

5. Amwythig (Durstion) c. 1744 - un o'r cyn-berchnogion oedd 'Thos. Griffiths Graigfechan Llanfair D.C. nr. Rhuthin October 8th, 1852.'

6. Amwythig (Durstion) c. 1750 - ceir ôl llosgi ar y copi hwn.

7. Amwythig (Durstion)?

8. Amwythig (Eddowes) 1768 - 'James James's Book bought at Helig in Glasnant.'

9. Amwythig (Eddowes) 1773 - 'rhodd L.E. Valentini i W. Jones 11 Mowbray Rd., yn yr ysbyty Hydref 1946.'

10. Wrecsam (Marsh) 1775 - 'Elinor Lloyd Her Book 1779' a 'E Gittins Y Faerdref Dolanog'.